




Cyngor
Gwynedd

Cynllun Gwasanaeth Gaeaf

2026/27



Adran Priffyrdd, Peirianeg ac YGC
Swyddfeydd y Cyngor
Cyngor Gwynedd
Allt Pafiliwn
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1BN

gwynedd.llyw.cymru

CYNLLUN GWASANAETH Y GAEAF 2026/27

Ymwadiad

Ni fydd Cyngor Gwynedd yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, am unrhyw gamgymeriadau neu wallau mewn data neu wybodaeth dechnegol a gyflenwyd gan gyrff allanol neu unigolion sydd wedi eu cynnwys yn y ddogfen hon. Cyfrifoldeb y sawl sy'n defnyddio'r ddogfen yw sicrhau bod data technegol a chyfarwyddiadau iechyd a diogelwch yn ddilys cyn gweithredu ar sail yr wybodaeth honno. Yn ogystal, ni fydd unrhyw hawliad a wneir gan unrhyw dderbynnydd nad yw'n benodedig neu'n ddefnyddiwr diawdurdod o'r ddogfen, ar unrhyw fater y gellid barnu sy'n gyfrifoldeb i Gyngor Gwynedd, yn cael ei dderbyn.

Rheoli Dogfennau

Mae hon yn ddogfen reoledig ac mae iddi gyfeirnod unigryw ar y dudalen hon sy'n perthyn i ddeiliaid cynllun penodol fel y nodir ar y rhestr ddosbarthu sy'n dilyn. Caiff newidiadau i'r ddogfen hon eu cyhoeddi ar ffurf tudalennau llawn - ar e-bost i staff y Cyngor a trwy'r post i Gynghorwyr a chyrff sy'n Bartneriaid. Nodir dyddiad, mis a blwyddyn y newidiadau ar y tudalennau a gaiff eu newid. Dylai deiliaid y cynllun hwn ysgrifennu pob newid ar y dudalen newidiadau a ddarperir.

Ni ddylid llungopïo'r ddogfen hon - mae ynddi wybodaeth ar ffurf lliw ac efallai na fydd yn copïo fel y bwriedir.

Cymeradwyo'r Ddogfen

Mae'r ddogfen yma wedi ei hadolygu a'i chymeradwyo gan:

Y Cynghorydd June Jones

Aelod Cabinet – Priffyrdd, Peirianeg ac YGC



Steffan Jones

Pennaeth Priffyrdd, Peirianeg ac YGC



Rheoli Dogfennau

Teitl	Cynllun Gwasanaeth Gaeaf
Cyfeirnod	PB/CGGG/SJ/EM - QA

Hanes y Ddogfen

Fersiwn	Dyddiad	Statws - Newidiadau
3.0	01.10.15	Fersiwn newydd
4.0	01.10.18	Fersiwn newydd
5.0	01.10.19	Fersiwn newydd
6.0	01.10.20	Fersiwn newydd gyda newidiadau ac ychwanegiadau (gan gynnwys ymateb y Cyngor i COVID-19)
7.0	01.10.21	Fersiwn newydd gyda newidiadau sy'n adlewyrchu strwythur diwygiedig y Gwasanaeth Cynnal Ffyrdd
8.0	08.11.22	Addasiadau wedi eu gwneud i gylchdaith graeanu Meirionnydd (Cylchdaith 8, 9 a 16)
9.0	25.10.23	Fersiwn newydd gyda newidiadau sy'n adlewyrchu strwythur diwygiedig yr Adran. Diweddariad i gylchdeithiau Arfon a Meirionnydd.
10.0	21.10.24	Fersiwn newydd gyda newidiadau i gylchdeithiau graeanu a'r fflyd graeanu.
11.0	01.10.25	Fersiwn newydd gyda newidiadau i gylchdeithiau graeanu.
12.0	01.10.26	Fersiwn newydd gyda newidiadau i gylchdeithiau graeanu.

Cynnwys

1. Cynllun Gwasanaeth Gaeaf.....	6
2. Deddfwriaeth ac Arweiniad.....	8
3. Yr Ardal a Chyfrifoldebau	9
4. Sefydliad	10
5. Rhagolygon Tywydd a'r System Rhagweld Rhew	11
6. Trefn Gweithredu Gwasanaeth	13
7. Cynllun Cyfathrebu	16
8. Blaenoriaethau	17
9. Rheoli Halen.....	20
10. Adnoddau	21
Atodiad I	24
Atodiad II	25
Atodiad III	26
Atodiad IV.....	27
Atodiad V	32

1. Cynllun Gwasanaeth Gaeaf

1.1 Cyflwyniad i'r Gwasanaeth

- 1.1.1 Diben gwasanaeth y gaeaf yw rhoi cymorth i ddefnyddwyr ein ffyrdd drwy drin y rhwydwaith briffyrdd i leddfu effeithiau rhew ac eira ac i gadw trafnidiaeth i symud gan leihau effaith gweithrediadau'r gwasanaeth ar yr amgylchedd.
- 1.1.2 Nod y Cyngor yw darparu gwasanaeth gaeaf a fydd yn caniatáu, cyn belled ag y mae'n rhesymol bosib, ymsymudiad diogel traffig cerbydau ar rannau pwysicaf y rhwydwaith priffyrdd.
- 1.1.3 Yr amcan yw bod y rhwydwaith o lwybrau sydd wedi eu trin yn rhesymol hygyrch i fwyafrif y trigolion a busnesau, ynghyd â thargedu darpariaeth gyda chyfleusterau i helpu eich hun.
- 1.1.4 Mae'r gwasanaeth yn hanfodol i ddiogelwch y cyhoedd ac i'r economi genedlaethol a lleol gan gadw trafnidiaeth gerbydol, beiciau a cherddwyr i symud. Oherwydd yr adnoddau cyfyngedig a'r cyllid sydd ar gael, mae'n hanfodol fod darpariaeth gwasanaeth y gaeaf yn adlewyrchu pwysigrwydd y llwybrau traffig. Ni fydd yn rhesymol ymarferol i ddarparu'r gwasanaeth ar bob rhan o'r rhwydwaith neu i sicrhau bod pob arwyneb yn cael eu cadw yn rhydd rhag eira a rhew bob amser, hyd yn oed ar rannau o'r rhwydwaith sydd wedi eu trin. O ganlyniad, mae'r prif lwybrau cyn-raeanu wedi eu sefydlu ar y priffyrdd a fydd â'r flaenoriaeth gyntaf.
- 1.1.5 Y Cyngor, fel yr Awdurdod Priffyrdd, sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaeth gaeaf ar briffyrdd cyhoeddus a fabwysiadwyd yn y Sir. Fodd bynnag, rydym hefyd yn trin yr holl gefnffyrdd o fewn y Sir ar ran Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (ACGChC).
- 1.1.6 Yn ogystal, mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth gaeaf ar gyfer y rhan o'r A55 a reolir gan UK Highways A55 Ltd, y sefydliad cleient ar gyfer contract DBFO yr A55. Amlinellir gweithrediadau gwasanaeth y gaeaf ar gyfer y contract hwn mewn Gweithdrefn Ansawdd ar wahân: 'Darparu Gwasanaeth Gaeaf: Cyf. HOHM-QP-014 - 08/26, Adolygiad 11 (A55 DBFO) '.
- 1.1.7 Dylid nodi nad yw'r gwasanaeth gaeaf a ddarperir gan y Cyngor yn gwarantu y bydd unrhyw briffordd yn rhydd rhag eira a rhew ar unrhyw adeg benodol, hyd yn oed ar ôl i'r ffordd gael triniaeth.

1.2 Cyflwyniad i'r Cynllun

- 1.2.1 Diben y cynllun hwn yw gosod yr egwyddorion mae'r Cyngor yn eu defnyddio i gwrdd â'i rwymedigaethau a'i ddyletswyddau o safbwynt y gwasanaeth gaeaf. Ynddo gwelir y categorïau o ffyrdd sydd i gael eu trin, beth yw'r drefn o ran blaenoriaeth, a pha mor sydyn y dylent gael eu trin. Drwy ddefnyddio'r cynllun hwn y bwriad yw sicrhau bod lefel unffurf o wasanaeth drwy'r Sir.
- 1.2.2 Mae'r cynllun yn adlewyrchu Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd 2010 (HAMP) a Llawlyfr Cynnal a Chadw Asedau Priffyrdd (Fersiwn 1.2, 2024).

2. Deddfwriaeth ac Arweiniad

- 2.1 Mae Adran 41 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau priffyrdd i gynnal a chadw priffyrdd sydd i'w cynnal ar gost gyhoeddus. Yn benodol, mae Adran 41(1A) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau priffyrdd i sicrhau, cyn belled a bo hynny'n rhesymol ymarferol, nad yw eira a rhew yn peryglu taith ddiogel ar briffordd.
- 2.2 Dywed Adran 13.3 o Gynllun Rheoli Asedau Priffyrdd y Cyngor mai'r arfer gorau fyddai mabwysiadu a chyhoeddi Cynllun Gwasanaeth y Gaeaf ac y dylid ei adolygu yn flynyddol gan ystyried unrhyw amgylchiadau sydd wedi newid.
- 2.3 Yn Adran 150(1) Deddf Priffyrdd 1980, mae gofyniad i'r Awdurdod Priffyrdd dynnu unrhyw eira sydd wedi hel sy'n ffurfio rhwystr, a dywed Adran 150(3) o'r Ddeddf y dylid ystyried y ffactorau a ganlyn:

- Cymeriad y briffordd a natur y drafnidiaeth a'r nifer sy'n ei defnyddio
- Natur a graddau'r rhwystr
- Adnoddau'r gweithlu, cerbydau ac offer sydd ar gael i'r Awdurdod Priffyrdd a'r graddau mae'r adnoddau hynny yn cael eu defnyddio neu angen eu defnyddio i waith o'r fath

- 2.4 Yn ychwanegol, mae'r Ddeddf Rheoli Trafnidiaeth 2004 yn rhoi dyletswydd rheoli rhwydwaith ar holl awdurdodau trafndiaeth leol yng Nghymru. Mae gofyn fod awdurdodau yn gwneud popeth sy'n rhesymol ymarferol i reoli'r rhwydwaith yn effeithiol i gadw trafndiaeth i symud.
- 2.5 Mae argymhellion a chyngor ar gyfer cyflawni ein rhwymedigaethau mewn perthynas â gwasanaeth gaeaf wedi'u cynnwys yn nogfen 'Well-managed Highway Infrastructure' gan yr UK Roads Liaison Group a ddisodlodd 'Well Maintained Highways – Code of Practice for Highway Maintenance Management'. Mae'r argymhellion hyn wedi'u cynllunio i ganiatáu i awdurdodau lleol gyflawni eu rhwymedigaethau yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol ac wrth bennu polisi.

3. Yr Ardal a Chyfrifoldebau

- 3.1 Mae ardal Gwynedd yn oddeutu 985 milltir sgwâr (2,550 cilomedr sgwâr) ac mae'r rhwydwaith ffyrdd yn cynnwys Cefnffyrdd, Prif ffyrdd, Ffyrdd Sirol a Ffyrdd Sirol Di-ddosbarth. Gwledig yw cymeriad y rhwydwaith yn bennaf ond gydag elfen drefol sylweddol yn y prif drefi. Mae topograffi'r Sir o'r fath fel bo uchder ffyrdd yn amrywio o lefel y môr i 1,400 troedfedd (427 metr). Mae'r rhwydwaith yn cynnwys y canlynol:

Math o Briffordd	Cyfanswm (km)
Cefnffyrdd	234
Prif Ffyrdd (Dosbarth 1)	337
Ddim yn Brif Ffyrdd (Dosbarth 2 a 3)	1,110
Di-ddosbarth	1,345
Llwybrau Linc	40
Cyfanswm	3,066

- 3.2 Mae cyfrifoldebau'r Cyngor, fel y darparwr gwasanaeth cynnal gaeaf, fel a ganlyn:

a.	Datblygu Cynllun Gwasanaeth y Gaeaf i'w lwybrau penodol.
b.	Gweithredu Cynllun Gwasanaeth y Gaeaf a darparu gwasanaethau fel y diffinnir yn y Cynllun.
c.	Dylunio llwybrau trin gwasanaeth gaeaf.
d. *	Casglu gwybodaeth am ragolygon y tywydd a chyflwr y ffyrdd, gwneud penderfyniadau a rheoli'r gwaith yn ddyddiol.
e. *	Cyd-gysylltu gyda darparwyr gwasanaethau cyffiniol i sicrhau gwasanaeth parhaus a chyson.
f. *	Rhoi gwybod i bawb perthnasol am waith Gwasanaeth y Gaeaf.
e. *	Gweithredu gwaith gwasanaeth y gaeaf fel yr hysbyswyd.
f. *	Cyflwyno adroddiadau i ACGChC.
ff. *	Monitro ac adolygu perfformiad.
g.	Darparu offer, llafur a deunyddiau.
ng.	Cynnal a chadw cerbydau, canolfannau ac offer a'u gweithredu.

* Gweler **Atodiad I: Gweithdrefnau Cynnal a Chadw Gaeaf**
ACGChC/Awdurdod Partner

4. Sefydliad

- 4.1 Mae'r Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd yn gweithredu ei wasanaeth gaeaf mewn tair ardal weithredol, sef: Arfon, Dwyfor a Meirionnydd gyda swyddfeydd ardal yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau.
- 4.2 Cyfrifoldeb y Peiriannydd Ardal berthnasol yw cynllunio'r llwybrau graeanu, gwneud penderfyniadau cyn triniaeth a gweithredu cerbydau graeanu a gweithiau eraill yn ôl yr angen i ymgymryd â graeanu rhagofalus ar sail 24 awr ac ymateb i dywydd eithafol.
- 4.3 Y Pennaeth Priffyrdd, Peirianeg ac YGC sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am y gwasanaeth gaeaf ledled y Sir.
- 4.4 Y tu allan i oriau gwaith swyddfa arferol, ar benwythnosau ac ar unrhyw adeg arall pan fydd y swyddfeydd ar gau, mae 'System Ar-ddyletswydd' ar waith. Mae'r drefn yma'n cael ei gynnal gan staff y Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd ar sail system rota 24 awr.

5. Rhagolygon Tywydd a'r System Rhagweld Rhew

5.1 Cyfnodau Gwasanaeth y Gaeaf

5.1.1 Mae'r tri cyfnod gwasanaeth y gaeaf fel a ganlyn:

CYFNOD RISG YMYLOL	Ni ddisgwylir tywydd garw: Hydref, Ebrill
CYFNOD RISG ISEL	Gall tywydd garw ddigwydd: Tachwedd, Mawrth
CYFNOD RISG UCHEL	Rhesymol i ddisgwyl tywydd garw: Rhagfyr, Ionawr, Chwefror

5.2 Rhagolygon Tywydd

5.2.1 Mae'r Cyngor yn bresennol yn derbyn darpariaeth rhagolygon tywydd y gaeaf a gwasanaethau cynghori gan gwmni MetDesk. Mae'r gwasanaeth yn rhedeg 24 awr y dydd o 01 Hydref hyd at 30 Ebrill i gyfateb i'r tri chyfnod gwasanaeth y gaeaf uchod ac yn cynnwys y canlynol:

- Crynodeb penodol mewn ffurf graff yn cael ei gyhoeddi erbyn 07:00 bob dydd yn cynnwys crynodeb o'r tywydd gwirioneddol sydd wedi digwydd yn y 36 awr flaenorol a rhagolwg rhagarweiniol am y 36 awr i ddod.
- Rhagolwg testun 36 awr a 2 - 10 diwrnod ynghyd a graff yn cael ei gyhoeddi erbyn 13:00 ar gyfer y pum parth hinsoddol o fewn y Sir.
- Adolygiad o'r cyhoeddiad erbyn 19:00
- Gwasanaeth teleffon anghyfyngedig uniongyrchol 24 awr y dydd i ddaroganwr gyda gwybodaeth leol er trafod unrhyw agwedd o amodau'r tywydd.
- Bydd rhagolygwr MetDesk yn ffonio rhif ar ddyletswydd y tair ardal os bydd newid sylfaenol yn y tywydd.

5.2.2 Mae cynllun sy'n dangos y parthau hinsawdd a'r gorsafoedd monitro i'w weld yn **Afodiad II**.

- 5.2.3 Mae rhagolygon y tywydd yn cael eu crynhoi gan MetDesk o ddata wedi ei dderbyn gan radar, modelau ac wyth gorsaf monitro ffyrdd awtomatig.
- 5.2.4 Yn ystod oriau gweithio arferol, penwythnosau a gwyliau cyhoeddus, derbynnir gwybodaeth am ragolygon tywydd drwy wefan MetDesk <http://www.metdesk.com>. Mae gan bob swyddog perthnasol fynediad unigol fel y gellir ei fonitro.
- 5.2.5 Yn yr achos o newid amlwg yn y tywydd, mae MetDesk yn cysylltu gyda'r swyddog ar-ddyletswydd yn syth gydag unrhyw newid i'r rhagolwg.

5.3 System Rhagweld Rhew

- 5.3.1 Lleolir y gorsafoedd monitor fel a ganlyn

Rhif Ffordd	Lleoliad	Cyfeirnod Map	Uchder (m)
A5025	Llansadwrn	SH 545 750	82
A4086	Mymbyr	SH 692 569	203
A4212	Celyn	SH 817 395	350
A499	Abersoch	SH 318 298	16
A499	Pontllyfni	SH 441 537	10
A493	Tywyn	SH 595 014	6
A494	Cefnoddwysarn	SH 965 385	247
A5	Ogwen	SH 483 968	200

- 5.3.2 Dim ond chwech o'r gorsafoedd monitro sydd yn ein cyfrifoldeb sef (Abersoch, Pontllyfni, Tywyn, Cefnoddwysarn, Celyn ac Ogwen).
- 5.3.3 Gosodwyd synwryddion yn y gorsafoedd tywydd i storio a chyfnewid gwybodaeth ar dymheredd aer ac arwyneb y ffyrdd, pwynt gwllith, cyflymder y gwynt a gwlybaniaeth a gorchudd cwmwl.

6. Trefn Gweithredu Gwasanaeth

6.1 Trefniant Staff

6.1.1 I ddibenion gwasanaeth cynnal gaeaf, caiff y Sir ei rannu'n dair ardal fel a ganlyn:

- Arfon gyda swyddfa a depo gweithredol yn Cibyn, Caernarfon
- Dwyfor gyda swyddfa yn Pwllheli a depo gweithredol yn Afonwen
- Meirionnydd gyda swyddfa a phrif ddepo gweithredu yn Dolgellau. Mae yna hefyd ddepos gweithredu lloeren yn y Bala, Tywyn a Blaenau Ffestiniog.

6.1.2 Gwneir penderfyniadau cyn triniaeth yn ystod oriau swyddfa arferol gan swyddogion dynodedig yn y Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd ym mhob un o'r tair swyddfa ardal. Rhoddir cyfarwyddiadau llafar ar gyfer y gwaith arfaethedig yn y lle cyntaf sydd wedyn yn cael eu cadarnhau'n ysgrifenedig.

6.1.3 Mae pob swyddfa ardal yn gweithredu system ar ddyletswydd tu allan i oriau gwaith lle mae swyddogion o fewn yr Adran ar gael i ymateb i newidiadau i'r tywydd fel mae gwybodaeth yn dod i law. Gellir cysylltu â phob swyddog dyletswydd ar lein ffôn argyfwng penodol (**Atodiad III**). Mewn amgylchiadau lle digwydd hyn, bydd y swyddog perthnasol yn trosglwyddo'r wybodaeth, ac unrhyw gamau amrywiol yn ôl yr angen, i'r gweithwyr graeanu.

6.1.4 Er mwyn sicrhau'r lefel briodol o gymhwysedd, dylid sefydlu ac adolygu anghenion hyfforddi a datblygu'r holl bersonél yn flynyddol, gan gynnwys iechyd a diogelwch a chymwysterau galwedigaethol priodol. Mae Swyddogion ar ddyletswydd Gwynedd yn mynychu hyfforddiant arbenigol ar ddehongli rhagolygon y tywydd a defnyddio meddalwedd cyfrifiadurol pwrpasol, sy'n gysylltiedig â'r gorsafoedd monitro. Mae'r system yn darparu gwybodaeth hanesyddol a chyfredol am amodau ffyrdd, sy'n gysylltiedig â MetDesk sydd ar gael i'r Swyddog ar ddyletswydd 24 awr y dydd yn ystod cyfnod y gaeaf. Mae gweithredwyr sy'n ymwneud â'r gwasanaeth ar lawr gwlad yn derbyn cwrs hyfforddiant gloywi blynyddol ar gyfer defnydd cyffredinol o'r offer ac yn ymglyfarwyddo ag unrhyw offer newydd. Mae gweithredwyr hefyd

wedi'u hyfforddi a'u cymhwyso i City & Guilds 6159: cymhwyster gweithrediadau gwasanaeth gaeaf.

6.2 Cyswllt Tros y Ffin

- 6.2.1 Er uchafu ar effeithiolrwydd, mae rhai o ffyrdd Gwynedd yn cael eu graeanu gan awdurdodau cyfagos.
- 6.2.2 Yn yr un modd, mae trefniadau mewn lle i Wynedd drin rhai ffyrdd o fewn Sir Ddinbych a Conwy.
- 6.2.3 O dan yr amgylchiadau yma, bydd y weithred a gymerwyd o fewn cytundeb a pholisi'r Awdurdod sy'n ymgymryd â'r gwaith.

6.3 Gweithredu

- 6.3.1 Mae'r lefelau gweithredu fel a ganlyn

Patrôl	Gwneir gan Arolygwr Priffyrdd yn yr ardaloedd
Ar Alwad	Gweithwyr gartref yn aros am alwad
Gweithwyr yn aros yn y Depo	Gweithwyr yn y Depo yn aros am gyfarwyddiadau
Cyn-raeanu	Gwneir gan yrwyr yn unig mewn cerbydau graeanu i daenu halen ar raddfa benodol ar hyd y ffyrdd yn unol â llwybrau a restrwyd
Clirio eira	Gwneir gan yrwyr ac un arall pan fo erydr eira wedi'i osod. Caiff halen hefyd ei roi mewn cyfnod o eira ond ar raddfa uwch.

6.4 Gweithrediadau

- 6.4.1 Mae cerbydau fflyd y gwasanaeth gaeaf yn cynnwys cerbydau graeanu pwrpasol a cherbydau dadlwytho. Y Rheolwr Fflyd sydd yn gyfrifol am feddiannu a chynnal a chadw'r fflyd gwasanaeth gaeaf.
- 6.4.2 Mae'r fflyd yn cael ei gynnal a'i wasanaethu gan weithdai'r Uned Fflyd sydd wedi eu lleoli o fewn pob ardal weithredol.
- 6.4.3 Bydd gweithrediadau rhagofalus graeanu arferol yn cael eu cario allan gan gerbyd graeanu un dyn yn unig.

- 6.4.4 Er cyfarch risg o weithio mewn amgylchiadau a allai fod yn beryglus mae dyfais 'telematics' wedi ei osod ym mhob cerbyd. Mae'r ddyfais yma hefyd yn adnabod lleoliad y cerbyd. Mae'r system yn cynnwys 'panic button' ym mhob cerbyd sy'n gallu anfon rhybudd. Mae data graeanu yn cael ei gasglu drwy'r un system tracio ac mae gan yr holl gerbydau graeanu ffonau symudol penodol.
- 6.4.5 Yn ychwanegol yr ydym wedi cyflwyno system monitro er sicrhau bod y cerbydau graeanu yn gadael ac yn dychwelyd i'r Depo wedi triniaeth.

6.5 Triniaeth Ragofalus

- 6.5.1 Gweler y matrices gwneud penderfyniadau yn **Atodiad IV**. Gall y rhain gael ei addasu trwy gysidro faint o halen sydd dros ben neu leithder yr arwyneb.

7. Cynllun Cyfathrebu

7.1 Cyfathrebu Mewnol

- 7.1.1 Bydd cyfathrebiadau i hwyluso gweithredu'r gwasanaeth gaeaf yn cymryd lle dros y ffôn yn bennaf. Fodd bynnag, pe bai digwyddiadau'n cynyddu, fe all y swyddogion perthnasol fynd i mewn i'r swyddfeydd ardal os bydd angen i gydlynu ymateb y Cyngor. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd y Pennaeth Adran a / neu'r Pennaeth Cynorthwyol yn cael ei(u) ddiweddarau'n rheolaidd o'r digwyddiadau.

7.2 Cyfathrebu â'r Cyhoedd

- 7.2.1 Mae gwybodaeth ynglŷn â pham, ble a sut mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth gaeaf (gan gynnwys mapiau o'r llwybrau graeanu) a sut i yrru'n ddiogel mewn amodau gaeafol, wedi'i gynnwys ar wefan y Cyngor:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/parcio-ffyrdd-a-theithio/graeau-a-biniau-halen>

- 7.2.2 Mae'r wefan yn cynnwys manylion cyswllt i adrodd ar broblemau rhew ac eira yn ystod a thu allan i oriau gwaith arferol.
- 7.2.3 Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ledaenu unrhyw wybodaeth am dywydd garw a'i wasanaeth gaeaf i'r cyhoedd.

7.3 Gwasanaethau Brys

- 7.3.1 Bydd y gwasanaethau brys yn cael gwybod am bolisi gwasanaeth gaeaf y Cyngor a sut y bydd ei nodau'n cael eu cyflawni cyn dechrau pob tymor gaeaf. Dosberthir copi o'r Cynllun hwn i bob un o'r gwasanaethau perthnasol.

7.4 Cyswllt Trawsffiniol

- 7.4.1 Mae penderfyniadau cyn-triniaeth yn cael eu cyfleu o fewn system Bwrdd Cofnodi (Message Board) o fewn system rhagolygon Tywydd MetDesk. Mae ACGChC wedyn yn coladu gweithredoedd yr holl Awdurdodau Partner (**Atodiad I**).

8. Blaenoriaethau

8.1 Cyn-raeanu'r Briffordd



- 8.1.1 Nod y Cyngor yw darparu gwasanaeth graeanu rhesymol ac ymarferol cyn unrhyw dywydd garw ar y ffyrdd mwyaf strategol/pwysicaf yng Ngwynedd. Gelwir y rhain yn Brif Lwybrau a nod y Cyngor yw sicrhau nad yw llwybr diogel ar hyd y ffyrdd hynny yn cael eu peryglu gan eira a rhew. Mae cyn-raeanu y briffordd yn gyfyngedig i Brif Lwybrau ac yn cael ei gario allan gan gerbydau graeanu yn unig.
- 8.1.2 Mae ein Prif Lwybrau graeanu (y cerbydlonydd sydd gyda blaenoriaeth gyntaf) fel a ganlyn:

- Cefnffyrdd A55, A5, A487, A470, A494
- Prif Ffyrdd A a Ffyrdd strategol B
- Ffyrdd cysylltiedig pwysig eraill sydd yn:-
 1. Ffyrdd gyda thraffig uchel; neu sy'n
 2. Darparu o leiaf un mynediad i'r canolfannau sy'n ymateb i argyfwng neu sy'n derbyn derbyniadau argyfwng; neu sy'n
 3. Ffordd dosbarth sirol II neu III gydag oddeutu un mynediad i drefi a phentrefi

8.2 Ôl Raeanu'r Briffordd

8.2.1 Bydd ôl raeanu yn cael ei gario allan mewn tywydd garw eithafol yn unig, neu tra disgwylir y tywydd garw barhau ac os na fydd y ffyrdd perthnasol wedi derbyn triniaeth yn ystod y 36 oriau blaenorol. Rhoddir blaenoriaeth i gadw'r Prif Lwybrau ar agor cyn cysidro gwaith ar drin a chlirio ffyrdd eilradd ac ymdrin â gweddill y Ffyrdd Sirol yn ddilynol.

8.2.2 Mae ein ffyrdd eilradd (y cerbydlonydd sy'n cael ail flaenoriaeth) fel a ganlyn:

- Y ffyrdd Sirol Dosbarth III sydd ar ôl nad ydynt yn cael eu cynnwys fel ffyrdd blaenoriaeth gyntaf.
- Ffyrdd eraill sy'n darparu o leiaf un mynediad i ysgolion, canolfannau hyfforddiant neu fannau diwydiannol.
- Ffyrdd Sirol Dosbarth II eraill sy'n darparu o leiaf un mynediad i Ysbytai neu Ganolfannau Gofal lechyd dyddiol.
- Ffyrdd eraill sydd yn cael eu hadnabod fel angen triniaeth oherwydd graddiant serth neu uchder.

8.2.3 Bydd triniaeth ôl raeanu dim ond yn cael ei gario allan yn ystod golau dydd a gwneir hyn pan fydd adnoddau ar gael gan roi sylw dyledus i ofynion trin Prif Lwybrau ac amodau tywydd cyffredinol.

8.3 Graeanu Troedffyrdd, Llwybrau Beics, Llwybrau Aml Bwrpas a Chroesfannau Rheilffordd

- 8.3.1 Ni fydd cyn-driniaeth i droedffyrdd, llwybrau beics a llwybrau aml bwrpas yn cymryd lle. Yn ychwanegol, ni fydd ôl driniaeth o unrhyw fath yn cael ei hystyried hyd nes bydd adnoddau ar gael ar ôl cadw prif ffyrdd a ffyrdd eilradd mewn cyflwr derbyniol. Mae hyn yn cynnwys ôl driniaeth prif ardaloedd siopa.
- 8.3.2 Gweler **Atodiad V** ar gyfer trefniadau o gwmpas Croesfannau Rheilffordd.

8.4 Clirio Eira

- 8.4.1 Bydd clirio eira yn cael ei gario allan gyntaf ar y ffyrdd sydd ar y rhestr i gael cyn- driniaeth graeanu. Bydd gweddill y rhwydwaith yn cael eu trin mewn tywydd eithafol fel daw adnoddau ar gael.

8.5 Biniau Halen

- 8.5.1 Yn ogystal â gweithrediadau graeanu rhagofalus, adweithiol ac atodol, mae'r Cyngor hefyd yn darparu ac yn gwasanaethu biniau halen. Darperir biniau halen mewn lleoliadau penodol ar y rhwydwaith briffyrdd nad ydynt ar lwybrau graeanu blaenoriaeth gyntaf.

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/map>

8.6 Amser Ymateb a Thrin

- 8.6.1 Mae'r amser ymateb, sef y cyfnod rhwng gwneud penderfyniad i ddechrau triniaeth a cherbydau yn gadael y depo, yn un awr yn ystod a thu allan i oriau gwaith arferol.
- 8.6.2 Caiff holl gefnffyrdd Gwynedd eu trin cyn pen 2 awr o ddechrau eu graeanu.
- 8.6.3 Yr amser triniaeth ar gyfer ffyrdd blaenoriaeth fydd oddeutu tair awr, ond gwneir pob ymdrech i ostwng hwn drwy wella nodweddion a chynhwysedd cerbydau, lleoliadau depo a halen a gostwng teithio rhydd ar lwybrau.
- 8.6.4 I rai ffyrdd, lle mae angen i fwy na 20gms/m² gael ei daenu, dylid teithio'r ffordd ddwywaith er mwyn cyrraedd y raddfa ledaenu ddymunol. Yn yr amgylchiadau hyn gall y ffordd gymryd hyd at 6 awr i'w chwblhau.

9. Rheoli Halen

9.1 Storio Halen



9.1.1 Caiff yr halen ei gadw mewn storfeydd yn y chwe lleoliad isod:

Lleoliad	Cynhwysedd (tunelli)
Depo Cibyn, Caernarfon	2,500
Depo Afonwen, Chwillog	3,000
Ffridd Arw, Dolgellau	3,800
Depo Bala	3,000
Blaenau Ffestiniog	4,500
Llandygai	4,000

9.1.2 Mae gan y pedwar lleoliad cyntaf cromen halen pwrpasol.

9.1.3 Cedwir yr halen o dan do yn Blaenau Ffestiniog a Llandygai. Mae'r safleoedd yma hefyd yn Storfeydd Strategol Llywodraeth Cymru.

10. Adnoddau

10.1 Mae darparu gwasanaeth gaeaf effeithiol yn dibynnu ar y taenu effeithiol o halen o gerbydau pwrpasol i weithredu fel dad-rewr a defnyddir halen neu gymysgfa o halen a graean i leihau effaith rhew ac eira. Mae eira gorweddol yn cael ei symud gyda swch eira neu eu llwytho yn gorfforol.

10.2 Mae nifer y gweithlu a'u lleoliadau fel a ganlyn:

Ardal	Nifer Gweithlu	Nifer Mechanics (Priffyrdd)
Arfon	12	4
Dwyfor	14	5
Meirionnydd	25	5
Cyfanswm	51	14

10.3 Mae nifer adnoddau'r Cyngor (peiriannau a cherbydau) a'u lleoliadau fel a ganlyn:

Safle	Graeanwyr wedi eu hadeiladu yn bwrpasol	Sychau Eira	Graeanwyr y gallir eu tynnu	Chwythwyr Eira	Sbâr wedi eu hadeiladu'n bwrpasol
Cibyn	5	8	2	0	1
Afonwen	6	8	0	0	1
Dolgellau	3	6	2	0	2
Bala	3	4	1	0	0
Llan Ffestiniog	3	4	0	0	0
Tywyn	2	2	0	0	0
Cyfanswm	22	32	5	0	4

10.4 Rhestrir isod fanylion cerbydau graeanu'r Cyngor:

Ardal Arfon

Rhif Fflyd	Rhif Cofrestru	Model	Math cerbyd	Gwneuthuriad
3542	CE68EGZ	MAN 18.250	4×4	Romaquip
3541	CE68EGY	MAN 18.250	4×4	Romaquip
3548	CX73AZF	Volvo FE 6x4	6×4	Romaquip
3564	CX74BCY	Volvo 6X6	6×6	Romaquip
3546	CN71OXM	MAN TGS 26.430	6×4	Romaquip
3553	CX74BBK	Volvo 18t	4×4	Romaquip

Ardal Dwyfor

Rhif Fflyd	Rhif Cofrestru	Model	Math cerbyd	Gwneuthuriad
3554	CX24BBN	Volvo 18t	4×4	Romaquip
3537	KU68BYN	Volvo FE	6×4	Romaquip
3538	KU68BYO	Volvo FE	6×4	Romaquip
3539	KU68BYP	Volvo FE	6×4	Romaquip
3540	CE68EGX	MAN 18.250	4×4	Romaquip
3556	CX74BBU	Volvo 18t	4x4	Romaquip
3543	CN71OXS	MAN TGM 18.250	4×4	Romaquip

Ardal Meirionnydd

Rhif Fflyd	Rhif Cofrestru	Model	Math cerbyd	Gwneuthuriad
3558	CX74BCE	Volvo 16t	4×4	Romaquip
3559	CX74BCF	Volvo 16t	4×4	Romaquip
3560	CX74BCK	Volvo 16t	4×4	Romaquip
3561	CX74BCO	Volvo 16t	4×4	Romaquip
3550	CX74BBE	Volvo 18t	4×4	Romaquip
3551	CX74BBF	Volvo 18t	4×4	Romaquip
3552	CX74BBJ	Volvo 18t	4×4	Romaquip
3555	CX74BBO	Volvo 18t	4×4	Romaquip
3557	CX74BBV	Volvo 18t	4×4	Romaquip
3562	CX74BCU	Volvo 18t	4×4	Romaquip
3563	CX74BCV	Volvo 18t	4x4	Romaquip
3544	CN71OXT	MAN TGM 18.250	4×4	Romaquip
3536	KU68BYM	Volvo FE (Sbar)	6x4	Romaquip

Atodiad I

Cynllun Tywydd Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn gytundeb partneriaeth rhwng wyth awdurdod lleol Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Powys, Wrecsam ac Ynys Môn (yr Awdurdodau Partner). Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod arweiniol ar gyfer y bartneriaeth ac mae'n cael ei gyflogi drwy Gytundeb Asiant Rheoli Llywodraeth Cymru fel Asiant sy'n gyfrifol am reoli ystod eang o wasanaethau cefnffyrdd ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r gwasanaethau hyn yn eu tro yn cael eu darparu gan Unedau Darparwyr Gwasanaeth yr Awdurdodau Partner neu eu caffael drwy fframweithiau gyda'r sector preifat. Mae'r awdurdod arweiniol wedi sefydlu Uned Rheoli Cefnffyrdd (TRMU) i weithredu a rheoli gofynion WGMAA a fynegir yn fanylach drwy Lawlyfr Cynnal a Chadw Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru.


Ym mis Ebrill 2016, cyflwynodd ACGChC Gytundeb Cyflenwi Gwasanaethau (SDA) diwygiedig gyda'r AP's lle yn Atodiad 1, mae Cyfrol C yn darparu'r fanyleb ar gyfer Gwasanaethau Tywydd Garw i'w darparu gan y AP. Datblygwyd y fanyleb ar y cyd ag Asiant Cefnffyrdd De Cymru (ACDC) ac mae'n darparu dull cyffredin rhwng Asiantau i'r graddau y bo modd o ystyried y gwahanol fodelau gwasanaeth ar gyfer darparu. Er mwyn gwneud y gorau o weithrediadau cynnal a chadw gaeaf ar rwydwaith un gerbyddfordd wledig yn bennaf, mae ACGChC yn gweithredu model cyflenwi llwybrau sirol a chefnffyrdd integredig tra bod gan ACDC, sydd â rhwydwaith traffordd uchel a ffyrdd deul, fodel cyflenwi llwybr cefnffyrdd yn unig.

Bydd tymor cynnal a chadw y gaeaf 2026/27 yn defnyddio gwasanaethau rhagolygon a ddarperir gan METDesk. Ar y cyd â WGTRMM a'r SDA, mae'r Cynllun Tywydd Garw hwn yn disgrifio'r amcanion polisi, y gweithdrefnau a'r trefniadau gweithredol ar gyfer darparu gwasanaeth tywydd garw ac yn manylu ar y gweithdrefnau rhybuddio a'r camau gweithredu pe bai tywydd garw ar y rhwydwaith cefnffyrdd yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru.

Mae Awdurdodau Partner ACGChC gyda'i gilydd yn darparu gwasanaeth integredig a chyfannol ar draws y rhwydweithiau sirol a chefnffyrdd ar gyfer cyflawni'r ymateb i'r tywydd garw, sy'n darparu manteision gwytnwch ychwanegol.

Atodiad II

Parthau Hinsawdd a Gorsafoedd Monitro



Atodiad III

Rhifau Ffôn Argyfwng 24 awr

Ardal	Rhif
Arfon	01286 677067
Dwyfor	01766 810382
Meirionnydd	01341 422592

Atodiad IV

Matrics Triniaeth

		Predicted Road Conditions		
Road Surface Temperature	Precipitation etc.	Wet	Wet Patches	Dry
May fall below 1°C	No rain No hoar frost No fog	Salt before frost	Salt before frost (see note A)	No action likely, monitor weather (see note A)
Expected to fall below 1°C	No rain No hoar frost No fog		Salt before frost (see note B)	
	Expected hoar frost Expected fog			
	Expected rain BEFORE freezing		Salt after rain stops	
	Expected rain DURING freezing		Salt before frost and after rain stops (see note C)	
	Possible rain Possible hoar frost Possible fog	Salt before frost	Monitor weather conditions	
Expected snow		Salt before snow fall		
Freezing Rain	Before rain	Salt before rainfall (see note C)		
	During rain	Salt during rainfall (see note C)		
	After rain	Salt after rainfall (see note C)		

Notes

- A. Particular attention should be given to any possibility of water running across carriageways and such locations should be monitored and treated as required.
- B. When a weather warning contains reference to expected hoar frost, considerable deposits of frost are likely to occur and close monitoring will be required. Particular attention should be given to the timing of precautionary treatments due to the possibility that salt deposited on a dry road may be dispersed before it can become effective.
- C. Under these circumstances rain will freeze on contact with running surfaces and full pre-treatment should be provided even on dry roads. This is a most serious condition and should be monitored closely and continuously throughout the danger period.

Treatment Matrix Guide

This matrix has been reproduced from WGTRMM 2016 Section 1.1.22 as follows:

Table 1.1.22 - Welsh Government Salt Treatment Matrix						
Weather Conditions, Road Surface Conditions, Road Surface Temperature (RST)	Air Temperature	Required Treatment				
		Dry Salting (g/m ²)	Pre-wetted Salting (g/m ²) (see Note 1)	Pre-Coated Salting (g/m ²)	Pre-coated / Pre Wetted Combination (g/ m ²)	Ploughing
(MARGINAL CONDITIONS) Frost or forecast frost, RST at or above minus 2°C and dry or damp road conditions. (Note 4 if porous / open textured surfacing) (* the option of a Dry Salting		(8)* 10 (12)	10 (12)	10 (10)	10 (12)	No
Frost or forecast frost, RST at or above minus 2°C and wet road conditions. (Note 3 if wet and lightly trafficked) (Note 4 if porous / open textured surfacing)		10 (15)	12 see Note 2 (15)	10 (12)	12 see Note 2 (15)	No

Frost or forecast frost, RST below minus 2°C and above minus 5°C and dry or damp road conditions (Note 3 if damp and lightly trafficked) (Note 4 if porous / open textured surfacing)		15 (20)	15 (20)	10 (15)	15 (20)	No
Frost or forecast frost, RST below minus 2°C and above minus 5°C and wet road conditions (Note 3 if wet and lightly trafficked) (Note 4 if porous / open textured surfacing)		20 (25)	20 see Note 2 (25)	15 (20)	20 see Note 2 (25)	No
Frost or forecast frost, RST at or below minus 5°C and above minus 10°C and dry or damp road conditions (Note 3 if damp and lightly trafficked) (Note 4 if porous / open textured surfacing)		20 (25)	20 (25)	15 (20)	20 (25)	No
Frost or forecast frost, RST at or below minus 5°C and above minus 10°C and wet road conditions (existing or anticipated) (Note 3 if lightly trafficked) (Note 4 if porous / open textured surfacing or particularly low temperatures at lower end of temperature band)		2x15 (2x20)	2x15 see Note 2 (2x20)	25 (2x15)	2x15 see Note 2 (2x20)	No
Light snow forecast (<10mm)		10-20	10-20 see Note 2	10-15	10-20 see Note 2	No
Medium / heavy snow or freezing rain forecast (>10mm)		2x20	see Note 2	2x15	see Note 2	No
Freezing rain falling		20 (successive)	see Note 2	15 (successive)	see Note 2	No

After freezing rain		20 (successive as required)	see Note 2	15	see Note 2	No
Ice formed (minor accumulations)	above minus 5°C	20	see Note 2	15	see Note 2	No
Ice formed	at or below minus 5°C	2x20	See Note 2	2x15	see Note 2	No
Snow covering exceeding 30mm		10-20 (successive)	see Note 2	10-15 (successive)	see Note 2	Yes
Hard packed snow / ice	above minus 8°C	20 (successive)	see Note 2	15 (successive)	see Note 2	No
Hard packed snow / ice	at or below minus 8°C	Salt/abrasive (successive)	see Note 2	Salt/abrasive (successive)	see Note 2	No

Undertake precautionary salting at an appropriate spread rate in advance of predicted / forecast freezing temperatures.

Rates of spread for precautionary treatments may be adjusted to take account of residual salt or surface moisture. Refer to WGTRMM 2.2.22.

If the indicated spread rate cannot be accurately applied due to limitations of the equipment or calibration difficulties, the next higher spread rate should be used. (For example: when indicated 12g/m² use 15g/m²).

Equipment shall be calibrated and adjusted to ensure that the required spread rates throughout the salting route (with varying loads) does not fall below the minimum rate specified, this is particularly important for the lower spread rates indicated.

Where a double treatment is necessary the initial first treatment shall be at the highest spread rate possible within the limitations of the spreader for the route length. For example, 2x15g/m² applied as 1x20g/m² +1x10g/m².

Notes:

- 1) Spread rates for pre-wetted salt is the combined weight of dry rock salt and brine combined at 70:30 proportion by weight respectively. Refer to WGTRMM Part 2 regarding the addition of Agricultural By Products (ABP's) within the brine (10% by volume maximum) or use of pre-coated salt (3% by weight of salt).
- 2) When ice has formed or snow is lying, dry or pre-coated salting is the preferred treatment unless the road is closed to traffic when pre-wetted salting may be used. Pre-wetted and pre-coated salting is a more effective treatment in advance of such conditions. Pre-coated and dry salting should be undertaken when roads are wet from recent or anticipated precipitation.
- 3) Treatments should be carried out, whenever possible, after traffic has dispersed standing water. Successive normal or half rate treatments (for pre-wetted, pre-coated and dry salt) may be considered, based on operational experience for lightly trafficked roads at the lower end of the temperature bands indicated and climatic variations experienced.
- 4) Where a surfacing is of an open texture and /or porous or surface water is evident the higher spread rate (indicated in brackets) should be used. Where temperatures may reach the lower end of the temperature bands, light traffic or a more cautious approach to treatment is required based on operational experience, local knowledge, uncertainty of weather forecast and timings the higher spread rate (indicated in brackets) may be used.

Atodiad V

Network Rail - Beth sydd ei angen ar Groesfannau Rheilffordd

I ddibenion y rheilffordd ni ddylid defnyddio halen i glirio wyneb croesfan rheilffordd oherwydd y perygl o fethiant i gylched ochr anghywir y trac.

Gall Network Rail benderfynu ble mae trê'n ar y rhwydwaith drwy ddefnyddio cylchedau'r trac (cerrynt isel sy'n pasio drwy ran o drac a phan fo trê'n yn pasio dros y lleoliad yma - caiff y cerrynt eu siortio gan felly weithredu offer fel signalau).

Ond pan fo halen yn bresennol gall hyn achosi siortio fydd yn peri i gylched y trac fethu (fydd yn dangos fod trê'n yn bresennol pan nad oes un yno) neu mewn achosion difrifol gall achosi methiant i gylched ochr anghywir y trac (gan ddangos bod trê'n ddim yn bresennol pan fo un yno) a gall hyn achosi canlyniadau trychinebus.

Mae **Adran B.7.5.43** dogfen y Roads Liaison Group "*Well-Managed Highway Infrastructure: Code of Practice for Highway Maintenance Management*" (Argraffiad 2016) yn datgan:

"Mae Network Rail yn argymhell na ddylid halltu rhwng llinellau stop croesfannau gwastad, hyd yn oed pan fyddant wedi'u gorchuddio ag eira.

Cyn clirio eira dros groesfan, mae'n rhaid i'r gyrrwr stopio a ffonio'r signalwr am ganiatâd i fynd ymlaen ac yna hysbysu'r dyn signal ar ôl mynd dros y groesfan
"

